

Cofnodion Is-bwyllgor cyllid Y Bala

19 Rhagfyr 2018

Presennol: Eifion Roberts, Dilys Evans, Rhys Evans
Lis Puw

1. Adolygwyd:

- i. **Rheolau Ariannol.** Nodwyd yr angen i wneud rhestr o daliadau cyson er mwyn iddynt gael eu talu pan ddaw'r anfonebau - cyflwyno'r rhestr i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.
- ii. **Asesiad o Risgiau Ariannol -**
 - nodwyd yn arbennig fod Cyngor Gwynedd yn wynebu toriadau a bod posibilrwydd na fyddant yn digolledu Cyngor Y Bala am gynnal Y Domen.
 - Nodwyd ymhellach yr angen i leihau costau cynnal y toiledau, gan eu bod yn un rhan o dair o'r Praesept. Cytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn am gyfarfod er mwyn trafod y costau a thrafod y posibilrwydd o gydweithio gyda Partneriaeth Penllyn.
 - Cytunwyd i ofyn i Partneriaeth Penllyn am ryddhau Cyngor Tref Y Bala o'r ddyletswydd o fod yn "fam" Gyngor, oherwydd y cymhlethdodau ariannol sy'n deillio o'r trefniant erbyn hyn.
- iii **Polisi Yswiriant** – nid oes Tystysgrif Atebolrwydd Cyhoeddus penodol, ond rhannwyd y darnau perthnasol gan Gwmni Zurich. Mae meinciau a'r lloches bws wedi eu hychwanegu at y rhestr asedau.

2. **Archwiliad Mewnol 2017-18:**

- i. Adolygwyd y broses archwilio fewnol 2017-18 a chofnodwyd bodlonrwydd mawr gyda'r broses a'r adroddiad,
- ii. Ystyriwyd ymhellach Adroddiad yr Archwilwyr Allanol 2017-18 (BDO). Nodwyd y mater bychan o'r angen i newid dyddiad ffurflen BDO os oes gohirio dyddiadau cyflwyno deunydd.
- iii. Trafodwyd penodi Archwilydd Mewnol ar gyfer 2018-19 a chytunwyd i ofyn i Luned Fôn, o Gyngor Gwynedd
- iv. Cytunwyd ar y Llythyr ymrwymiad i'r Archwilydd Mewnol 2018-19

3. **Archwiliad 2018-19:**Atgoffwyd yr aelodau o'r anghenion:

- a. Cylch Gorchwyl yr is Bwyllgor Cyllid – adolygwyd a chytunwyd
- b. Cydymffurfiaeth a'r Rheolau Sefydlog

Cytunwyd fod y Cyngor yn dilyn y Rheolau Sefydlog yn ofalus iawn. Cytunwyd i atgoffa aelodau o'r rheol wrth ddatgan buddiant, sef

Gall cyngorwyr a chanddynt fudd niweidiol o ran unrhyw eitem o fusnes sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod (i) wneud sylwadau, (ii) ateb cwestiynau a (iii) rhoi tystiolaeth ynghylch y mater sy'n cael ei drafod ond rhaid iddo wedyn adael yr ystafell neu'r siambr.

4. **Taliadau i Gynghorwyr.** Ystyriwyd goblygiadau'r rheolau a'r dyddiadau perthnasol. Cytunwyd fod angen cynnwys hwn wrth lunio cyllideb 2019-20

5. **Adolygu Cyflogau**

Yn absenoldeb y Clerc adolygwyd y cyflogau yng ngoleuni'r wybodaeth ddiweddaraf gan NALC. Nodwyd fod y gofynion cyfrifo wedi ymestyn yn ddifrifus yn ddiweddar ac yn arbennig ers i BDO archwilio'n allanol. Mae'r pwyntiau cyflog wedi newid – yr hen 27 wedi newid i LC2 (18-23) Cytunwyd i osod cyflog y Clerc presennol ar bwynt 21 sef £13.41 yr awr am 35 awr y mis, hyn yn gwneud cyfanswm o £5,632 y flwyddyn.

6. **Y sefyllfa ariannol** – astudiwyd y cyfrifon a'r rhag amcanion tebygol erbyn diwedd Mawrth 2019. Cymharwyd hyn yn erbyn Cyllideb y llynedd a'u cael yn agos iawn at ei gilydd.

7. Cyllideb 2019-20

Gosodwyd y gyllideb 2019-20 ar gyfer ystyriaeth gan y Cyngor llawn yn Ionawr 2019. Cytunwyd i gynnwys LWFANSAU CYNGHORWYR a CYNNAL A CHADW ASED AU fel eitemau gan fod angen glanhau'r llochesi bus yn rheolaidd Cytunwyd i ofyn am 3 acanbris i'w glanhau unwaith bob 2 fis.

8. Praesept Cytunwyd i argymhell lefel y Praesept o £24,000 i'r Cyngor llawn